## Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

## Amodau Trwydded Gyrwyr Hurio Preifat

### 1. Ymddygiad Cyffredinol Gyrwyr

Rhaid i'r Gyrrwr:

(a) bob amser fod yn lân a pharchus o ran gwisg ac ymddangosiad, ac yn ymddwyn mewn modd sifil a threfnus; a

(b) chymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y teithwyr sydd yn mynd i mewn neu'n dod allan o'r cerbyd.

### 2. Bod ar Amser

Bydd gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat, os yw'n ymwybodol bod y cerbyd wedi cael ei hurio fod mewn man a lle ar amser penodol, neu wedi cael cyfarwyddyd fel arall gan y gweithredwr neu berchennog y cerbyd i fod yn bresennol mewn man ar amser penodol, yn bresennol yn y man a'r lle hwnnw yn brydlon, oni bai ei fod wedi cael ei ddal yn ôl neu ei rwystro gan achos digonol.

### 3. Gyrwyr i Gymryd y Llwybr Byrraf

Bydd Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat pan gaiff ei logi i yrru i unrhyw gyrchfan arbennig, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan yr huriwr, yn cymryd y llwybr byrraf sydd ar gael i'r gyrchfan honno.

### 4. Teithwyr

(a) Ni fydd y Gyrrwr yn cario neu'n caniatáu i gario mewn Cerbyd Hurio Preifat fwy o bobl na'r hyn a nodir yn y drwydded ar gyfer y cerbyd ac wedi'i nodi ar y plât sy'n sownd ar du allan y cerbyd.

(b) Ni fydd y Gyrrwr, heb ganiatâd huriwr cerbyd, yn cario neu'n caniatáu i gario unrhyw un arall yn y cerbyd hwnnw.

## Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976

## Private Hire Drivers' Licence Conditions

### 1. General Conduct of Driver

The Driver shall:

(a) at all times be clean and respectable in dress and person, and behave in a civil and orderly manner; and

(b) take all reasonable steps to ensure the safety of passengers conveyed in, entering or alighting from, the vehicle.

### 2. Prompt Attendance

The driver of a Private Hire Vehicle, shall, if s/he is aware that the vehicle has been hired to be in attendance at an appointed time and place or s/he has otherwise been instructed by the operator or proprietor of a vehicle to be in attendance at an appointed time and place, punctually attend at that appointed time and place, unless delayed or prevented by sufficient cause.

### 3. Driver to Proceed by Shortest Route

The Driver of a Private Hire Vehicle when hired to drive to any particular destination shall, subject to any direction given by the hirer, proceed to that destination by the shortest available route.

### 4. Passengers

(a) The Driver shall not convey or permit to be conveyed in a Private Hire Vehicle a greater number of persons than that prescribed in the licence for the vehicle and specified on the plate affixed to the outside of the vehicle.

(b) The Driver shall not without the consent of the hirer of a vehicle convey or permit to be conveyed any other person in that vehicle.

## 5. Cludo a Thrin Bagiau

Bydd Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat, pan ofynna'r huriwr:

(a) yn cario swm rhesymol o fagiau

(b) yn rhoi cymorth rhesymol gyda llwytho a dadlwytho

(c) yn rhoi cymorth rhesymol gyda'i gario i neu o fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf neu le, lle gallai godi neu ollwng unigolyn o'r fath.

## 6. Cloc tacsi

Os oes gan Gerbyd Hurio Preifat sy'n cael ei yrru gan y gyrrwr, gloc tacsi, ni fydd y gyrrwr yn achosi i'r pris a gofnodwyd ar hwnnw gael ei chanslo neu ei chuddio nes bod yr huriwr wedi cael cyfle teg o'i archwilio ac wedi talu'r ffi (oni bai y rhoddir credyd).

## 7. Mynnu Ffioedd/ Derbynneb Ysgrifenedig

(a) Ni fydd y Gyrrwr yn mynnu oddi wrth unrhyw huriwr Cerbyd Hurio Preifat, ffi sy'n fwy na'r hynny a gytunwyd am y daith rhwng yr huriwr a'r gweithredwr, neu os oes cloc tacsi wedi'i ffitio yn y cerbyd ac nad oes unrhyw gytundeb blaenorol ynglŷn â'r ffi, ffi sydd ddim mwy na hynny a ddangosir ar wyneb y cloc tacsi.

(b) Bydd y Gyrrwr os gofynna huriwr y cerbyd yn rhoi derbynneb ysgrifenedig am y ffi a dalwyd.

## 8. Eiddo Coll

(a) Bydd y Gyrrwr yn syth ar ôl gorffen cyfnod llogi o Gerbyd Hurio Preifat neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny, yn chwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael eu gadael yn ddamweiniol yno.

(b) Os daw'r Gyrrwr o hyd i, neu os rhoddir i'r Gyrrwr, unrhyw eiddo a adawyd yn ddamweiniol mewn Cerbyd Hurio Preifat gan unrhyw un a gafodd ei gludo ynddo, bydd yn ei gludo cyn gynted â phosibl ac yn sicr o fewn 48 awr, os na wnaed cais gan neu ar ran ei berchennog, i'r Orsaf Heddlu agosaf a'i adael yng ngofal y swyddog ar ddyletswydd a chael derbynneb amdano.

## 5. Carriage and Handling of Luggage

The Driver of a Private Hire Vehicle shall, when requested by the hirer:

(a) convey a reasonable quantity of luggage

(b) afford reasonable assistance in loading and unloading

(c) afford reasonable assistance in removing it to or from the entrance of any building, station, or place at which s/he may take up or set down such person.

## 6. Taximeter

If a Private Hire Vehicle being driven by the driver is fitted with a taximeter, the driver shall not cause the fare recorded thereon to be cancelled or concealed until the hirer has had a reasonable opportunity of examining it and has paid the fare (unless credit is to be given).

## 7. Fares to be Demanded / Written Receipts

(a) The Driver shall not demand from any hirer or a Private Hire Vehicle a fare in excess of any previously agreed for that hiring between the hirer and the operator or, if the vehicle is fitted with a taximeter and there has been no previous agreement as to the fare, a fare not in excess of that shown on the face of the taximeter.

(b) The Driver shall if required by the hirer of the vehicle provide a written receipt for the fare paid.

## 8. Lost Property

(a) The Driver shall immediately after the termination of any hiring of a Private Hire Vehicle or as soon as practicable thereafter carefully search the vehicle for any property which may have been accidentally left there.

(b) If any property accidentally left in a Private Hire Vehicle by any person who may have been conveyed therein is found by or handed to the Driver, s/he shall carry it as soon as possible and in any event within 48 hours, if not claimed by or on behalf of its owner, to the nearest Police Station and leave it in the custody of the officer in charge on the giving of a receipt for it.

**9. Ynglŷn â Chludo Cyrff Marw**

Bydd Perchennog neu Yrrwr Cerbyd Hurio Preifat a fydd yn gwybod eu bod yn cludo corff marw yn y cerbyd, yn rhoi gwybod i Adran Gwasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor o'r ffaith yn syth ar ôl hynny.

**10. Copi o'r Amodau i'w cadw yn y Cerbyd**

Wrth yrru Cerbyd Hurio Preifat bydd y Gyrrwr bob amser yn cario copi o'r Amodau hyn, a'u bod ar gael i'w harchwilio gan yr huriwr neu unrhyw deithiwr arall pe gofynnant.

**11. Defnydd Anfoesol o Gerbyd**

Ni fydd Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat yn defnyddio'r cerbyd, nac yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio gan unrhyw un arall ar gyfer unrhyw ddefnydd anweddus, anfoesol neu amhriodol.

**12. Adneuo Trwydded Gyrrwr**

Os yw Gyrrwr â chaniatâd neu wedi'i gyflogi i yrru Cerbyd Hurio Preifat, a rhywun arall yw perchennog y cerbyd, cyn dechrau gyrru'r cerbyd hwnnw, bydd yn adneuo'r drwydded gyda'r perchennog hwnnw i'w chadw nes bydd caniatâd y gyrrwr i yrru'r cerbyd neu unrhyw gerbyd arall, neu ei gyflogaeth yn dod i ben.

**13. Newid Cyfeiriad**

Bydd y Gyrrwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded, o fewn saith diwrnod o'r newid.

**14. Euogfarnau**

Rhaid i Yrrwr Trwyddedig o fewn saith diwrnod ddatgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, fanylion unrhyw euogfarnau a gafodd yn ystod cyfnod y drwydded.

**15. Towtio etc**

Ni fydd deilydd trwydded wrth yrru neu wrth fod yn gyfrifol am Gerbyd Hurio Preifat:

**9. As to Conveyance of Dead Bodies**

The Proprietor or Driver of a Private Hire Vehicle who shall knowingly convey in the vehicle the dead body of any person, shall immediately thereafter, notify the fact to the Council's Regulatory Services Department.

**10. Copy of Conditions to be kept in Vehicle**

The Driver shall at all times when driving a Private Hire Vehicle carry a copy of these Conditions and shall make it available for inspection by the hirer or any other passenger on request.

**11. Immoral use of Vehicle**

The Driver of a Private Hire Vehicle shall not use the vehicle nor knowingly permit it to be used or occupied by any other person(s) for any indecent, immoral or improper use.

**12. Deposit of Driver's Licence**

If the Driver is permitted or employed to drive a Private Hire Vehicle of which the proprietor is someone other than himself, s/he shall before commencing to drive that vehicle deposit the licence with that proprietor for retention until such time as the driver ceases to be permitted or employed to drive the vehicle or any other vehicle.

**13. Change of Address**

The Driver shall notify the Council in writing of any change of his address during the period of the licence, within seven days of such a change taking place.

**14. Convictions**

A Licenced Driver shall within seven days disclose to the Council, in writing, details of any convictions imposed on him during the period of the licence.

**15. Touting etc**

The licence holder shall not while driving or in charge of a Private Hire Vehicle:

(a) yn towtio neu'n crefu ar ffordd neu fan cyhoeddus arall oddi wrth unrhyw unigolyn i'w hurio neu gael ei wneud i'w hurio mewn unrhyw Gerbyd Hurio Preifat; neu

(b) achosi na chaffael unrhyw un arall i dowtio neu grefu ar ffordd neu fan cyhoeddus arall oddi wrth unrhyw unigolyn i'w hurio neu gael ei wneud i'w hurio mewn unrhyw Gerbyd Hurio Preifat .
Yn yr amod hwn:

mae 'ffordd' yn golygu unrhyw briffordd neu ffordd arall mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, gan gynnwys pontydd y mae ffyrdd yn mynd heibio.

**16. Swyddogion ag Awdurdod**

Rhaid i'r Gyrrwr gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a wnaed yn briodol gan y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio neu Swyddogion eraill y Cyngor ag Awdurdod mewn perthynas â'r amodau uchod yn ymwneud â Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat.

**17. Atal neu Ddirymu Trwydded**

Os bydd Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat Trwyddedig, yn cyflawni, yn dioddef neu'n caniatáu i unrhyw rai o'r Amodau Trwyddedu hyn gael eu torri, neu unrhyw un o'r Amodau Cyffredinol, Rheoliadau, neu Statudau o bryd i'w gilydd sydd mewn grym, gall y Drwydded gael ei Dirymu neu ei Hatal.

(a) tout or solicit on a road or other public place any person to hire or be carried for hire in any Private Hire Vehicle; or

(b) cause or procure any other person to tout or solicit on a road or other public place any person to hire or be carried for hire in any Private Hire Vehicle.

In this condition:

'road' means any highway or other road to which the public has access including bridges over which a road passes.

**16. Authorised Officers**

The Driver shall comply with any requirement properly made by the Head of Regulatory Services or other Authorised Council Officer in respect of the aforementioned conditions relating to Private Hire Vehicle Drivers.

**17. Suspension or Revocation of Licence**

If the Driver of a Licensed Private Hire Vehicle, commits, suffers or permits any breach of these Licensing Conditions, or any of the General Conditions, Regulations, or Statutes from time to time in force, the Licence may be Revoked or Suspended.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Gwasanaethau Trwyddedu
Coed Pella,
Ffordd Conway,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ

Licensing Services
Coed Pella
Conway Road
Colwyn Bay
LL29 7AZ